# Astudiaeth Achos Prosiect Treftadaeth Ddigidol Arloeswyr Powys

## Cyflwyniad

Dros y 250 mlynedd diwethaf, mae Powys wedi bod yn gartref i gyfres drawiadol o ddyfeiswyr, gweithredwyr cymdeithasol a phobl fusnes sydd wedi newid wyneb Cymru ac wedi cael dylanwad o amgylch y Byd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Laura Ashley a'r teulu – arloeswraig gyda thecstilau, dodrefn cartref a ffasiwn a chyflogwr gwledig arwyddocaol.
- Robert Owen – entrepreneur a diwygiwr cymdeithasol dyngarol, diwygiwr addysgol ac athrylith greadigol o arwyddocâd rhyngwladol.
- David Davies – arloeswr glo a'r rheilffyrdd, a'i deulu dyngarol – Yr Arglwydd Davies; Gwendoline a Margaret Davies.
- Pryce Jones – arloeswr rhyngwladol o ran cwmni archebion post a siopa o gartref; gyda'r honiad ei fod yn gychwynnwr Gwasanaeth Postio Parseli'r Post Brenhinol ac yn ddyfeisiwr y sach gysgu fodern.

Roedd Astudiaeth Ddichonolrwydd wedi ystyried sut y gellid defnyddio gwaddol ac etifeddiaeth Arloeswyr Powys er budd pobl leol, gyda'r ffocws canolog ar weithgareddau a chyflwyno digidol.

## Yr Her

Dyluniwyd yr Astudiaeth Ddichonolrwydd i werthuso opsiynau ar gyfer gweithredoedd yn y dyfodol yn erbyn pump o amcanion, gyda'r ffocws canolog ar gyflwyno a gweithgareddau digidol. Yr amcanion hyn yw i:

- Wella hunaniaeth a balchder lleol yn Arloeswyr Powys, Y Drenewydd, a Chanolbarth Cymru
- Cynyddu adnabyddiaeth o Arloeswyr Powys, Y Drenewydd a Chanolbarth Cymru led led Cymru, y DU ac yn rhyngwladol
- Cyflawni ariannnu treftadaeth yr Arloeswyr, ar gyfer cynaliadwyedd y prosiect yn y dyfodol.
- Datblygu adfywiad Y Drenewydd yn seiliedig ar dreftadaeth
- Defnyddio gwaddol ac etifeddiaeth Arloeswyr Powys i symbylu entrepreneuriaeth leol.

## Yr Ateb

Cynhaliwyd prosiect yr Astudiaeth Ddichonolrwydd dros y cyfnod rhwng Tachwedd 2018 a Thachwedd 2019, gyda thri phrif gam:

1. Archwilio a datblygu ystod o opsiynau treftadaeth ddigidol, ochr yn ochr â chontractio'r sefydliadau sy'n gyfrifol am archifau'r amrywiol arloeswyr, i feithrin cysylltiadau ac archwilio cynlluniau digidol y presennol a'r dyfodol. Roedd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (RCAHMW) a Chasgliad y Werin Cymru (PCW) yn bartneriaid allweddol, gan ddatblygu adroddiad ar opsiynau treftadaeth ddigidol (gweler Atodiad 1) a chyflwyno'r rhain i randdeiliaid mewn cyfarfod ym mis Mawrth 2019.
2. Ymestyn allan at gymunedau yn Y Drenewydd a Chanolbarth Cymru, i asesu diddordeb yn nhreftadaeth yr Arloeswyr ac wrth ddatblygu prosiectau ac adnoddau treftadaeth ddigidol. Y ddau brif ddigwyddiad a gynhaliwyd yn ystod y cam hwn:
3. Diwrnod Treftadaeth Laura Ashley a'r teulu, a gynhaliwyd mewn arddangosfa deithiol o fewn siop wag yng Nghanolfan Siopa Bear Lanes yn Y Drenewydd ar ddiwrnod carnifal blynyddol y dref, ym mis Mehefin 2019. Roedd dros 150 o bobl wedi ymweld â'r siop a chwblhau arolygon.
4. Noson i ddathlu Pryce Jones ym mis Hydref 2019, 160 mlynedd wedi iddo agor ei siop archebu drwy'r post. Anfonwyd gwahoddiadau at 150 o bobl, a thybiwyd fod dros 100 wedi mynychu a dros 70 wedi llenwi arolygon. Mae Casgliad y Werin Cymru ac Addysg Oedolion Cymru wedi bod yn bartneriaid allweddol wrth gyflwyno'r cam hwn.
5. Gwerthuso'r data a gynhyrchwyd gan y prosiect ac asesu dichonolrwydd yr amrywiol opsiynau, a arweiniodd at lunio'r adroddiad hwn. Mae Chris Blanford Associates wedi bod yn bartner allweddol, wrth lunio adroddiad ar ymyriadau treftadaeth ffisegol posibl yn Y Drenewydd ac etifeddiaeth y prosiect, gan fod yn ffrind beirniadol wrth ddatblygu'r Astudiaeth Ddichonolrwydd.

Trwy gydol y prosiect, mae tîm y prosiect wedi cyfathrebu gyda'r prif randdeiliaid, wedi cynnal cyfarfodydd preifat a chyhoeddus, wedi mynychu cyfarfodydd ar brosiectau cysylltiedig o fewn yr ardal. Mae pwyslais cryf wedi bod ar ddatblygu ymwybyddiaeth, diddordeb a phartneriaeth o ran y syniadau a gynhyrchwyd gan y prosiect a cheisio prynu'r ffyrdd fwyaf priodol ymlaen i mewn.

Er mwyn cyflawni nodau'r prosiect, mae pedwar o flociau adeiladu strategol wedi cael eu dynodi ar gyfer astudiaeth ddichonolrwydd, gyda phob un yn cynnwys nifer o brosiectau posibl. Yr elfennau strategol yw:

- Elfen 1: Digidol
- Elfen 2: Adeilad ac arddangosfeydd parhaol
- Elfen 3: Digwyddiadau a gweithgareddau dros dro
- Elfen 4: Addysg

I werthuso dichonolrwydd yr elfennau hyn, maent yn cael eu hasesu yn erbyn eu potensial i gyflwyno amcanion y prosiect ac yn erbyn cyfres o feini prawf gweithredol, gan arwain at ddealltwriaeth o'r opsiynau sy'n cael eu ffafrio fwyaf. Y meini prawf gweithredol hyn oedd:

- Argaeledd arian
- Yr adnoddau dynol a'r capasiti trefniadaeth sydd ei angen
- Brys

Mae prosiectau eisoes yn digwydd yn Y Drenewydd a Chanolbarth Cymru sy'n cyfrannu tuag at amcanion HH4MW, megis llwybr treftadaeth ddigidol newydd Cyngor Tref Y Drenewydd a Llanllwchaearn. Mae'r Astudiaeth Ddichonolrwydd hon felly yn canolbwyntio ar y bylchau presennol mewn darpariaeth a'i nod yw osgoi dyblygu prosiectau a chyfleusterau sy'n bodoli eisoes.

## Y Budd

Roedd yr Astudiaeth Ddichonolrwydd wedi asesu 28 o brosiectau yn erbyn amcanion a meini prawf gweithredol y prosiect. Arweiniodd hyn at ddynodi 4 elfen o weithgaredd yn y dyfodol, gyda phob un yn ymgorffori nifer o brosiectau a werthusir.

- **Gŵyl 2021** – gŵyl gelfyddydol, ddiwylliannol a threftadaeth uchelgeisiol sydd yn flwyddyn o hyd ac yn gysylltiedig â 250 mlwyddiant genedigaeth Robert Owen a phen-blwydd 60 mlynedd ers agor siop gyntaf Laura Ashley;
- **Cadwraeth a Digideiddio** – prosiectau digidol i sicrhau cadwraeth casgliadau gwasgaredig, unigryw a bregus a gynhelir mewn perchnogaeth breifat ar draws Canolbarth Cymru, gan sicrhau'r mynediad a'r ymgysylltu mwyaf;
- **Ymwybyddiaeth, Addysg ac Entrepreneuriaeth** – Ymwybyddiaeth addysgol a hyrwyddo'r Arloeswyr yn lleol a chenedlaethol i ddatblygu eu proffil a'r effaith ar ddyfodol Canolbarth Cymru, ac i yrru entrepreneuriaeth.
- **Datblygu Prosiectau Etifeddiaeth** - cyfleusterau parhaol sy'n gallu dathlu'r Arloeswyr, diogelu eu gwaddol a chefnogi adfywhad diwylliannol ac economaidd Canolbarth Cymru a'r Drenewydd, sef storfa archifau a gwrthrychau parhaol yn Y Drenewydd ac arddangosfa barhaol.

## Y Canlyniad

Mae creu'r Astudiaeth Ddichonolrwydd wedi cynnwys ymgynghori helaeth gyda'r cyhoedd, gyda dau ddigwyddiad treftadaeth oedd â phresenoldeb da (un yn canolbwyntio ar Laura Ashley a'r llall ar Pryce Jones). Mae rhwydweithiau pwysig i ddatblygu a chyflwyno prosiect wedi cael eu sefydlu gyda phartneriaid y prosiect, a roddodd yn garedig o'u harbenigedd a nawdd ar ffurf nwyddau ac adnoddau. Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Casgliad y Werin Cymru a Chris Blandford Associates. Trwy gydol cwrs y prosiect, mae Addysg Oedolion Cymru wedi dod i'r amlwg fel partner newydd, gan ymrwymo adnoddau yn hael tuag at gyflwyno'r Astudiaeth Ddichonolrwydd a chydag ymroddiad tuag at weithio mewn partneriaeth yn y dyfodol.

## Deilliannau/Canlyniadau'r Prosiect

| Deilliant (Dangosydd Lefel Achos) | Cyflawnwyd |
|---|---|
| Nifer yr astudiaethau dichonolrwydd | 1 |
| Nifer y rhwydweithiau a sefydlwyd | 0 |
| Nifer y swyddi a ddiogelwyd | 0 |
| Nifer y gweithgareddau peilot a gynhaliwyd/ a gefnogwyd | 0 |
| Nifer yr hybiau cymunedol a grewyd | 0 |
| Nifer y rhanddeiliaid a gafodd eu cynnwys | 30 |
| Nifer y cyfranogwyr a gefnogwyd (digwyddiadau codi ymwybyddiaeth yn unig) | 258 |

| Deilliannau | |
|---|---|
| Nifer y swyddi a grewyd | 0 |
| Nifer y cymunedau sy'n elwa | 0 |
| Nifer y busnesau sy'n elwa | 0 |

## Manylion Cyswllt y Prosiect

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag: Ann Evans - Info@heritagehub4midwales.co.uk

## Logos Partneriaid/ Arianwyr Cyfatebol

Casgliad y Werin Cymru People's Collection Wales

CBHC RCAHMW

Addysg Oedolion Cymru Adult Learning Wales

cba

## Manylion y Prosiect

| Data Allweddol | Manylion y Prosiect |
|---|---|
| Cyflwynwyd gan: | Heritage Hub 4 Mid Wales |
| Dyddiad Dechrau: | Tachwedd 2018 |
| Dyddiad Diwedd: | Rhagfyr 2019 |
| Thema LEADER: | Thema 5: Manteisio ar Dechnoleg Ddigidol |

## Manylion Ariannol

| Disgrifiad | Swm | % |
|---|---|---|
| Cyfanswm y Gwariant: | £11,843.29 | 100.00% |
| Nawdd y Gronfa Datblygu Gwledig: | £6,317.93 | 53.35% |
| Nawdd Cyfatebol: | £5,525.36 | 46.65% |